| SWYDD-DDISGRIFIAD | |
|---|---|
| Teitl y Swydd | Gweithiwr Cefnogi Dilyniant |
| Cyfarwyddiaeth | Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Yn atebol i’r | Rheolwr Tîm Anableddau |
| Lleoliad | Tŷ Dewi Sant, Ewlo gan weithio ar draws Sir y Fflint |
| Cyfeirnod Swydd/Rhif Adnabod | |

**Pwrpas y Swydd**

Darparu amrywiaeth hyblyg o gefnogaeth i bobl ag anableddau yn unol ag egwyddorion y dull cefnogi dilyniant. Mae hyn yn golygu fod hawl gan bobl i greu bywydau ystyrlon ar eu cyfer eu hunain a chael rolau gwerthfawr, beth bynnag fo'u hanabledd. Mae cefnogaeth yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda phobl fel y gallant gynyddu eu hyder, adennill sgiliau a datblygu ansawdd bywyd da sy’n ystyrlon ac yn werth chweil fel y gallant fod yn annibynnol wrth reoli eu bywydau, wrth gymryd rhan yn eu cymunedau ac wrth gynnal cyflogaeth a gweithgareddau cymdeithasol, neu gyfleoedd gwirfoddoli ac addysgol eraill i gyrraedd eu potensial unigol. Nod y gefnogaeth yw cynnig cymorth ymarferol ac emosiynol penodol i bobl gydag anableddau o fewn fframwaith Cynllun Gofal a Chymorth yr unigolyn, i hyrwyddo eu hyder a’u hannibyniaeth yn y gymuned.

**Prif Gyfrifoldebau**

1. Bodloni anghenion pob unigolyn drwy weithio gyda nhw i glustnodi a chyflawni amrywiaeth o amcanion personol yn yr hyn sydd o bwys iddyn nhw.

2. Parchu cyfrinachedd a hyrwyddo perthnasau proffesiynol llawn ymddiriedaeth gydag unigolion a’u gofalwyr. Wrth wneud hynny, helpu pobl sy’n defnyddio’r gwasanaethau i gymryd rhan yn y broses o gynllunio a datblygu eu cymorth eu hunain.

3. Cofnodi lefel sgiliau pobl wrth i ni ddechrau eu cefnogi ac ar ôl hynny, gwerthuso’r cynnydd a wnaed dros gyfnod o amser.

4. Gweithio mewn partneriaeth gyda’r holl fudd-ddeiliaid sy'n ymwneud â’r gwasanaeth, er mwyn cefnogi pobl gyda phroblemau cymhleth drwy gymryd risgiau cadarnhaol. Mae hyn yn cyd-fynd â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol.

5. Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bobl ag anableddau i oresgyn gwahaniaethu ac allgau o’u cymunedau ac i herio disgwyliadau traddodiadol isel gan deuluoedd a’r gymuned ehangach.

6. Cyflawni hyfforddiant i wneud eu gwaith yn effeithiol yn unol â'r dull dilyniant.

7. Adrodd yn ôl i reolwyr ynghylch unrhyw sefyllfaoedd sy’n destun pryder neu sy’n debygol o effeithio ar yr unigolyn yn cyflawni ei ganlyniadau. Darparu cofnodion ysgrifenedig o bob cyswllt yn unol â’r Ddeddf Diogelu Data.

8. Gweithio o fewn yr oriau a gontractiwyd bob wythnos.

| **Goruchwylio/Rheoli Pobl** |
| --- |
| Dim |
| **Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol h.y. y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd** |
| Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd |

| **Manylion am yr Unigolyn** | | |
| --- | --- | --- |
| Mae'r manylion am yr unigolyn yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn angenrheidiol i gyflawni'r swydd, ac fe'u defnyddir wrth lunio rhestr fer yn ystod cam cyflwyno'r cais a'r cam cyfweld. Mae'n bwysig felly eich bod chi'n dangos yn eich cais sut yr ydych chi'n bodloni pob un o'r anghenion hanfodol. | | |
| **Cymwysterau Academaidd / Proffesiynol** | **Hanfodol / Dymunol** | **Sut fydd hyn yn cael ei asesu?** |
| Parodrwydd i dderbyn hyfforddiant perthnasol a gweithio tuag at Lefel 3 ar y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| QCF Lefel 3 neu gymhwyster Gofal Cymdeithasol arall | Dymunol | Ffurflen Gais |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | | |
| Bod â dealltwriaeth o anghenion pobl sydd ag anableddau a'r effaith y gall hyn ei gael ar eu bywydau. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Gwerthfawrogiad o'r angen i weithio i gynllun a phwysigrwydd adolygu cynnydd. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Profiad o gefnogi pobl ddiamddiffyn yn y gymuned mewn modd sy'n hyrwyddo annibyniaeth. | Dymunol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Sgiliau** | | |
| Gallu gweithio ochr yn ochr â phobl ddiamddiffyn a'u cynorthwyo i fyw bywydau mwy annibynnol a llawn. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Bod ag agwedd anfeirniadol a'r gallu i drin unigolion gydag urddas a pharch. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Gallu cyfathrebu'n effeithiol ac yn briodol gydag amrywiaeth o bobl mewn amrywiaeth o leoliadau. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Dealltwriaeth o'r angen i gadw at ganllawiau cyfrinachedd a'r gallu i wneud hynny. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Yn gallu siarad Cymraeg, ac yn dal trwydded yrru lawn. | Dymunol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Cymwyseddau Ymddygiad Craidd Cyngor Sir y Fflint** | **Hanfodol** | **Sut fydd hyn yn cael ei asesu?** |

| | | |
|---|---|---|
| **Y Cwsmer yn Gyntaf:**<br>Deall ein cwsmeriaid (mewnol ac allanol) a darparu gwasanaethau o safon uchel i fodloni eu disgwyliadau a rhagori arnynt | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Gweithio'n Ddoethach:**<br>Bod yn glir o ran yr hyn y mae disgwyl i chi ei gyflawni yn eich swydd a meddu ar y sgiliau, y cymhelliant, y brwdfrydedd a'r ymrwymiad i weithio'n effeithiol | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Cydweithio / Gweithio mewn Partneriaeth**<br>Meithrin a chynnal perthnasoedd cadarnhaol er mwyn darparu gwasanaethau gwell i'n cwsmeriaid a'n gweithwyr. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Cyfathrebu:**<br>Sicrhau ein bod yn deall ein gilydd, yn parchu ein gilydd ac yn mynegi a rhannu syniadau a gwybodaeth yn glir | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Newid:**<br>Addasu i newid a chyflwyno gwell ffyrdd o wneud pethau, drwy feddwl am syniadau a chwilio am y ffordd orau o ddarparu ein gwasanaeth. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Arwain a Rheoli:**<br>Eich arwain a'ch cymell eich hun ac eraill i wella perfformiad yn barhaus | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |